

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held
at Little Mill Village Hall, Berthon Road, Little Mill, NP4 0HJ on Dydd Mercher, 20fed
Tachwedd, 2019 at 1.00 pm**

PRESENT: Cynghorydd Sirol : M.Groucutt, G. Howard, M.Lane, M. Powell,
T.Thomas, K. Williams, S. Woodhouse, T. Konieczny, G. Nemes
and G. Thomas

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Deb Hill-Howells	Head of Commercial and Integrated Landlord Services
Poppy Harris	Landlord Services Project Officer
Graham Kinsella	Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffordd
Cheryl Haskell	Community Hubs North & Libraries Strategic Lead Manager
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democraidd

APOLOGIES:

Cynghorydd Sirol: R. Harris, S. Jones, P. Jordan and J.Pratt

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sirol M. Powell fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnol, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda - Mind Sir Fynwy, gan ei bod yn llywodraethwr Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII.

Datganodd y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnol, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda - Mind Sir Fynwy, gan ei bod yn un o sefydlwyr gwreiddiol Mind y Fenni, ond nid yw'n aelod cyfredol.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Y diweddaraf ynghylch ailddatblygu Hyb y Fenni.

Cawsom adroddiad diweddarau ynghylch ailddatblygu Hyb y Fenni. Wrth wneud hynny, nodwyd bod y rhaglen adeiladu wedi wynebu rhai heriau dros y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, cyflawnwyd y canlynol:

- Mae pob achos o ddymchwel drwy'r waliau wedi'i gwblhau ar y llawr isaf, yr ardal gyntaf a'r theatr ar y llawr gwaelod.
- Mae'r trwsio offer Mecanyddol a Thrydanol cyntaf yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar yr islawr, y theatr ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.
- Mae plastro newydd wedi'i gwblhau ym mhob ardal weithredol.
- Mae plastro calch ar hen waliau ar y gweill.
- Mae paentio waliau wedi cychwyn ar yr ardal theatr ar y llawr gwaelod.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Little Mill Village Hall, Berthon Road, Little Mill, NP4 0HJ on Dydd Mercher, 20fed Tachwedd, 2019 at 1.00 pm

- Cloddiwyd y pwll lifftiau ac mae'n cael ei lenwi ar hyn o bryd.
- Mae'r gwaith dur wedi dechrau ac yn mynd rhagddo ar gyfer y mesanîn.

Bydd cam nesaf y gwaith yn cynnwys y Siop Un Stop, ardal Heddlu Gwent a'r Ganolfan Groeso yn symud i mewn i ardal theatr y llawr gwaelod i allu dechrau gweithio yn y Siop Un Stop / ardal Heddlu ar y llawr gwaelod.

Y dyddiad gorffen a ragwelir ar gyfer y rhaglen gyffredinol yw Mawrth 2020 ar hyn o bryd.

Ar ôl derbyn yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Bydd y brif fynedfa yn cael ei hagor ar 2^{il} Rhagfyr 2019.
- Parheir i fonitro nifer yr ymwelwyr â'r farchnad gyda'r nod o sicrhau bod masnachu o fewn y farchnad yn dychwelyd i'r arfer cyn gynted â phosibl.
- Roedd nifer o gwestiynau wedi'u codi o'r blaen ynghylch ailddatblygu Hyb y Fenni. Dywedodd y swyddogion a oedd yn bresennol fod y cwestiynau hyn wedi cael eu hymateb yn uniongyrchol i Is-gadeirydd Cymdeithas Ddinesig y Fenni.
- Y flaenoriaeth oedd ailddatblygu Hyb y Fenni cyn mynd i'r afael â safle Stryd Baker (y llyfrgell flaenorol).

Fe wnaethom nodi'r adroddiad;

4. Gwahoddir cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Adran Briffyrdd Cyngor Sir Fynwy a Stagecoach i drafod materion Priffyrdd yn Ysbyty Nevill Hall (bysiau'n rhwystro ambiwlansys rhag cael mynediad/gadael oherwydd darpariaeth priffyrdd annigonol).

Cyfarfuom â chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Stagecoach ac Adran Briffyrdd Cyngor Sir Fynwy i drafod materion yn ymwneud â phriffyrdd sy'n digwydd yn Ysbyty Nevill Hall bob dydd lle mae bysiau'n cael eu hatal rhag cael mynediad i'r safle ac ymadael ag ef ar amser oherwydd parcio amhriodol ar y safle. Codwyd nifer o opsiynau posibl fel ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Penderfynwyd y dylai Adran Briffyrdd Cyngor Sir Fynwy ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Stagecoach gyda golwg ar ganfod ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r materion hyn.

5. Y newyddion diweddaraf gan y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse ynglŷn â'r cynnydd mewn perthynas â'r Grŵp Trafnidiaeth Strategol.

Nodwyd yr eitemau canlynol y gofynnodd y Pwyllgor Ardal i'r Grŵp Trafnidiaeth Strategol eu hystyried, wrth symud ymlaen:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Little Mill Village Hall, Berthon Road, Little Mill, NP4 0HJ on Dydd Mercher, 20fed Tachwedd, 2019 at 1.00 pm

- Mae parcio amhriodol ar safle Nevill Hall yn arwain at oedi cyn gadael y safle. Hefyd, diffyg darpariaeth parcio i gleifion allanol/ymwelwyr â'r ysbyty.
- Materion iechyd a diogelwch i weithwyr trac sy'n ymwneud â threnau sy'n teithio ar y rheilffordd o'r Fenni sy'n dal i ddefnyddio toiledau agored.
- Ni fydd y trenau newydd, pan gânt eu gweithredu, yn darparu cyfleusterau toiledau.
- Mae angen i Network Rail fynd i'r afael â'r materion parcio yng ngorsaf reilffordd y Fenni er mwyn atal cerbydau rhag gorfod parcio ar strydoedd cyfagos pan ddaw'r maes parcio'n llawn.
- Yr effeithiau negyddol a grëir gan y newidiadau i wasanaeth bws X3 h.y. cael gwared ar y gwasanaeth bws cynnar yn y bore sydd wedi achosi problemau i drigolion sy'n ceisio cyrraedd y coleg/gwaith ar amser.
- Nid yw llwybr bws o fewn ward Llanelen yn cael ei graeanu ar hyn o bryd. Hoffai'r Aelod lleol, y Cynghorydd Sirol G. Howard, i hyn gael ei ychwanegu at y llwybr graeanu am resymau diogelwch.
- Mae angen datrysiaid o hyd i fynd i'r afael â'r angen am arhosfan bysiau yn Heol y Parc, y Fenni ger Tesco.

Penderfynwyd bod yr Adran Briffyrdd/y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse yn codi'r materion hyn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trafnidiaeth Strategol.

6. Ymgysylltu â Mudiadau yn y Sector Gwirfoddol - Diweddariad llafar gan Marcia Burford o'r Prosiect Llesiant Bad Achub.

Cawsom ddiweddariad gan Marcia Burford ynghylch y Prosiect Bad Achub Lles.

Wrth wneud hynny, dywedwyd wrth y Pwyllgor Ardal:

- Mae'r Prosiect yn grŵp bach o therapyddion proffesiynol, cwnselwyr, athrawon, therapyddion cyfannol a grwpiau creadigol, sy'n rhoi o'u hamser i helpu lles y gymuned.
- Bedair blynedd yn ôl, nodwyd bod diffyg cefnogaeth anffurfiol i bobl yn y gymuned yn profi amrywiaeth o anawsterau yn eu bywydau eu hunain, a oedd yn effeithio ar eu hiechyd meddwl.
- Roedd Cyngor Sir Fynwy wedi darparu canolfan ar gyfer y sefydliad yng Nghanolfan Adnoddau Parc y Maerdy, y Fenni.
- Ni thelir treuliau i wirfoddolwyr. Mae'r gwasanaethau am ddim i sicrhau cynhwysiant cymunedol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Little Mill Village Hall, Berthon Road, Little Mill, NP4 0HJ on Dydd Mercher, 20fed Tachwedd, 2019 at 1.00 pm

- Mae'r prosiect yn darparu cwnsela, Reiki, Adweitheg, Tyllino cyfannol, Ymwybyddiaeth Ofalgar, gweithgareddau creadigol a chymorth i gael mynediad at asiantaethau a grwpiau cymunedol eraill.
- Mae'r Prosiect yn darparu manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, addysgol a diwylliannol.

Ar ôl cael y wybodaeth ddiweddaraf, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd.
- Y flwyddyn nesaf, mae'r prosiect yn gobeithio darparu gwasanaeth i bobl ifanc o dan 18 oed.
- Mae gan y prosiect gysylltiadau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ysbyty Maindiff Court.
- Mae'r prosiect yn cwmpasu ardal Sir Fynwy.

Fe nodom y diweddariad.

7. I dderbyn trosolwg o'r gefnogaeth y mae Mind Sir Fynwy yn darparu ar gyfer y gymuned leol.

Cawsom drosolwg o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Mind Sir Fynwy. Wrth wneud hynny, nodwyd y wybodaeth ganlynol:

- Elusen iechyd meddwl leol annibynnol yw Mind Sir Fynwy a ffurfiwyd dros 40 o flynyddoedd yn ôl i gefnogi pobl Sir Fynwy, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd am ddim i bobl mewn angen.
- Mae gan yr elusen bartneriaeth gyda Mind Cenedlaethol, ac mae'n ennill cefnogaeth dda, ond mae'n elusen annibynnol leol.
- Mae'r elusen yn cael ei chefnogi/hariannu gan ddau brif gontract sef, Is-adran Cefnogi Pobl Cyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Lleolir y swyddfeydd a'r staff yn Monk Street, y Fenni, ac maent yn gweithio ar draws y sir.
- Mae'r elusen leol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau am ddim sy'n cynnwys: cwnsela, cefnogaeth tenantiaeth, cyngor a chymorth gwybodaeth, adferiad 1-1, cyrsiau seicoaddysgol/adfer, grŵp cerdded, ymgyrchu, byw â chymorth, cymorth hawliau lles ac mae'r elusen wedi dechrau prosiect ffermwr yn ddiweddar i gefnogi'r rhai mewn angen.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Little Mill Village Hall, Berthon Road, Little Mill, NP4 0HJ on Dydd Mercher, 20fed Tachwedd, 2019 at 1.00 pm

- Ni chaiff cyllid drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, o £140,000 y flwyddyn, ei adnewyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, a allai arwain at derfynu darpariaeth rhai gwasanaethau yn y dyfodol, wrth symud ymlaen.
- Daw'r prosiect peilot ffermio i ben ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae nifer o achosion atgyfeirio cymhleth yn cael eu derbyn ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o dan bwysau ariannol. Fodd bynnag, pe bai gwasanaethau Mind Sir Fynwy yn cael eu lleihau oherwydd cyfyngiadau ariannol, byddai hyn yn creu effaith negyddol ar y rhai sydd angen y gwasanaethau hanfodol hyn.
- Cynghorwyd Sir Fynwy i ysgrifennu at y cynghorau tref a chymunedol yn y Sir yn amlinellu eu cyfyngiadau ariannol gan fod y cynghorau hyn ar hyn o bryd yn adolygu eu praeseptau ar gyfer 2020/21 ac efallai y byddent yn gallu darparu rhywfaint o gymorth ariannol.
- Mae Mind Sir Fynwy wedi sicrhau cyllid dros y ddwy flynedd ddiwethaf i roi cymorth iechyd meddwl a lles ychwanegol y mae mawr ei angen i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Oherwydd materion ariannu, mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen y gwasanaeth hwn. Mind Mae Sir Fynwy wedi gweithio gydag Ysgol Brenin Harri VIII i ysgrifennu cais ar y cyd gyda'r gobaith o sicrhau rhywfaint o gyllid.

Penderfynwyd:

- (i) **gwahodd cynrychiolydd o Wasanaeth Trawsnewid Gwent i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ardal yn y dyfodol i drafod y ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl o fewn Sir Fynwy, yn benodol, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau trawsnewid Gwent ac iechyd meddwl plant drwy'r Rhaglen Mynydd Iâ newydd.**
- (ii) **bod Rheolwr Craffu Cyngor Sir Fynwy yn cael gwybod am y cyfyngiadau ariannol y bydd Mind Sir Fynwy yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, a gofyn bod gwahoddiad yn cael ei estyn i Mind Sir Fynwy i fynychu cyfarfod Pwyllgor Dethol gyda'r bwriad o drafod y mater hwn ymhellach.**

8. Adroddiad cynnydd gan Dîm y Fenni.

Derbyniwyd a nodwyd yr adroddiad gan Dîm y Fenni ar y cynnydd hyd yn hyn. Fodd bynnag, ni wnaeth y Pwyllgor Ardal drafod yr adroddiad gan fod y Cyngor Sir wedi ymuno yn y cyfnod cyn yr etholiad mewn perthynas â'r etholiad cyffredinol arfaethedig ar 12^{fed} Rhagfyr 2019 ac ystyriwyd y gellid dehongli bod peth o gynnwys yr adroddiad yn sensitif yn wleidyddol yn ystod y cyfnod hwn.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Little Mill Village Hall, Berthon Road, Little Mill, NP4 0HJ on Dydd Mercher, 20fed Tachwedd, 2019 at 1.00 pm

9. Diweddariad gan Bwyllgor Cyswllt Gogledd Sir Fynwy.

Derbyniwyd a nodwyd yr adroddiad gan Bwyllgor Cyswllt Gogledd Sir Fynwy.

10. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy dyddiedig 25^{ain} Tachwedd 2019 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Cofnod 1 – Etholwyd y Cynghorydd Sirol M. Powell yn Gadeirydd.

Cofnod 8 – Gofynnodd Cyngor Tref y Fenni i'r Cynghorydd Sirol Woodhouse i roi'r newyddion diweddaraf i Gyngor y Dref ynghylch gorsaf reilffordd y Fenni.

11. Rhaglen Waith Craffu Sir Fynwy.

Derbyniwyd a nodwyd y Rhaglen Waith Craffu.

12. Blaenraglen Waith Busnes y Cyngor a'r Cabinet

Derbyniwyd a nodwyd Blaenraglen Waith Busnes y Cyngor a'r Cabinet

13. Rhaglen Waith Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy

Derbyniwyd a nodwyd blaenraglen waith Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy. Wrth wneud hynny, ychwanegwyd yr eitem ganlynol:

- i wahodd cynrychiolydd o Wasanaeth Trawsnewid Gwent i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ardal yn y dyfodol i drafod y ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl o fewn Sir Fynwy, yn benodol, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau trawsnewid Gwent ac iechyd meddwl plant drwy'r Rhaglen Mynydd Iâ newydd

14. Y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mercher 22ain Ionawr 2020 am 1.00pm.

Dydd Mercher 22ain Ionawr 2020 am 1.00pm.

The meeting ended at 2.45 pm.